# Cwricwlwm i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Ymgynghori â phlant a phobl ifanc



**Cwricwlwm yw'r enw a roddir ar y pynciau mae plant a phobl ifanc yn eu hastudio yn yr ysgol a chynnwys eu gwersi.**

Mae angen i'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion a sut y caiff ei addysgu newid, ac mae gwneud hynny'n golygu llawer o waith meddwl a chael barnau. Mae rhai o'r barnau pwysicaf rydym angen eu clywed yn dod gan blant a phobl ifanc.

Mae'r llyfryn hwn yn rhestru'r hyn yr ydym yn meddwl am ei wneud, a pham rydym yn meddwl am ei wneud. Rydym eisiau gwybod beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau.

## Ffaith Ddiddorol

Gair o'r Lladin yw Curriculum. Ei ystyr yw 'trywydd ras' ac ystyr y gair 'trywydd' yw'r cyfeiriad y mae dysgwyr yn ei gymryd trwy'r ysgol.



FFAITH DDIDDOROL

**Y Cyfnod Sylfaen –** 3-7 oed (Cyn-ysgol, Derbyn, Blwyddyn 1-2)

**Cyfnod Allweddol 2 –** 7-11 oed (Blwyddyn 3-6)

**Cyfnod Allweddol 3 –** 11-14 oed (Blwyddyn 7-9)

**Cyfnod Allweddol 4 –** 14-16 oed (Blwyddyn 10-11)

## GEIRIAU A RHIFAU

**Mae llythrennedd a rhifedd yn cyfeirio at ein gallu i ddefnyddio geiriau (eu darllen, eu dweud a'u hysgrifennu) a rhifau (mathemateg).** Ystyr FfLlRh yw Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – sef offeryn y mae athrawon yn ei ddefnyddio wrth addysgu llythrennedd a rhifedd.

Mae llythrennedd a rhifedd yn hanfodol yn ein bywyd pob dydd, ac yn y pen draw yn ein bywydau gwaith. Mae'r gwelliannau rydym eisiau eu gwneud yn cychwyn yn syth pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol, ac yn parhau trwy Gyfnodau Allweddol 2 i 4 pan fydd dysgwyr wir yn miniogi ac yn cryfhau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.



## MEYSYDD ERAILL

**Rydym yn gwybod nad llythrennedd a rhifedd yw'r unig feysydd sydd angen sylw.** Mewn gwirionedd, buom yn edrych ar lawer o agweddau gwahanol ar y cwricwlwm. Mae'r rhain wedi cynnwys rôl y Celfyddydau mewn Celf; Gwyddor Cyfrifiadurol a TGCh; y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru; Gweithgarwch Corfforol a Chymraeg fel Ail Iaith.

Ar hyn o bryd, rydym eisiau canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Edrychir ar y meysydd eraill hyn yn ddiweddarach (Cam 2).

# AMSERU


**Rydym yn datblygu'r cwricwlwm newydd yn ddau gam.**

**Mae Cam 1** ynglŷn â llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â dysgu sgiliau, fel datrys problemau, a fydd wir o gymorth yn ddiweddarach mewn bywyd ac yn gwneud dysgu pob pwnc yn haws.


**Cam 2** yw'r darlun mwy. Yma, rydym eisiau sicrhau bod y cwricwlwm yn amrywiol ac yn addysgu i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth y byddant eu hangen i sicrhau eu bod yn barod i gymryd eu lle ym myd y dyfodol.

**Byddwn yn edrych ar nifer o bethau yn yr ail gam hwn:**

- Mae rhai'n credu bod gormod o gynnwys yng Nghyfnod Allweddol 2, felly byddwn yn edrych yn fanwl ar y cam addysg hwn;
- Yng Nghyfnod Allweddol 3, rydym yn credu y dylai dysgwyr fod yn gallu ymchwilio i themâu a thestunau sydd wir o ddiddordeb iddynt; mae dysgu'n haws pan fydd rhywbeth yn cydio'n arbennig yn rhywun ac rydym hefyd yn mynd i edrych ar y posibilrwydd o gynnwys sefydliadau y tu allan i'r ysgol er mwyn ei wneud yn fwy diddorol, hyd yn oed;
- Rydym yn ystyried nodi diwedd Cyfnod Allweddol 3 gyda seremoni raddio arbennig, i ddweud 'da iawn chi' am waith caled yr holl ddysgwyr wrth iddynt ymbaratoi ar gyfer y cam mawr nesaf – Cyfnod Allweddol 4;
- Byddwn yn siarad â llawer o bobl ym myd busnes, i sicrhau bod y Cwricwlwm yn paratoi dysgwyr am fyd gwaith; ac
- Yng Ngham 2, byddwn yn edrych yn hir ac yn fanwl ar bynciau Gwyddoniaeth. Mae hwn yn faes hynod bwysig, ac mae'n cyflwyno rhai rhagolygon ar gyfer swyddi rhyfeddol sy'n talu'n dda, oherwydd bod ar Gymru angen gwirioneddol am arbenigedd gwyddonol.










## Ffaith Ddiddorol

Mae defnyddio geiriau a rhifau wedi bod wrth wraidd addysg dda erioed. Heddiw, rydym yn rhoi'r enwau llythrennedd a rhifedd ar ein defnydd o eiriau a rhifau. Ddim yn hir iawn yn ôl galwyd 'The three R's'arno, ymadrodd a fathodd Syr William Curtis, Aelod Seneddol adnabyddus ym 1795, a'r ystyr oedd Darllen, Ysgrifennu a Rhifyddeg (Reading, Writing and Arithmetic).



MAE POPETH YN CYCHWYN PAN FYDD PLANT YN DECHRAU YN YR YSGOL



**Rydym yn bwriadu cyflwyno newidiadau i'r Cwricwlwm o'r cychwyn cyntaf yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol a pharhau trwodd i Gyfnod Allweddol 4.** Nod y newidiadau hyn yw adeiladu ffyrdd newydd o addysgu llythrennedd a rhifedd, fel y cânt eu diffinio gan y FfLlRh, i mewn i'r Cwricwlwm.

Er mwyn helpu, byddwn yn llunio rhai dogfennau a fydd yn esbonio i ddysgwyr ac athrawon pa fath o bethau rydym yn disgwyl eu gweld wrth i ffyrdd newydd o addysgu llythrennedd a rhifedd o fewn y FfLlRh gael eu cyflwyno.

Caiff y model ei gyflwyno ar gyfer dysgwyr 5 oed yn y Cyfnod Sylfaen a bydd yn parhau trwodd i Gyfnod Allweddol 4, pan gaiff arholiadau TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg a Thechnegau Mathemateg eu sefyll. Yn ogystal, byddwn yn ymestyn y FfLlRh fel y caiff plant mor ifanc â 3 oed gymorth â'u llythrennedd a'u rhifedd dros y cyfnod cyfan tan iddynt droi'n 16 oed.



## Dysgu am Fywyd

**Rydym yn credu y bydd dysgwyr wir yn elwa trwy ddatblygu rhai sgiliau pwysig ar gyfer dysgu ac ar gyfer yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys:**

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesedd
- Effeithiolrwydd Personol
- Llythrennedd Digidol

Bydd hyn hefyd yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen ac yn parhau trwodd i Gyfnod Allweddol 4.



## Sut y byddwn yn cadw trefn ar bopeth

**Byddwn yn edrych yn fanwl iawn ar sut mae'r rhaglen newydd arfaethedig yn mynd rhagddi ym mhob maes, ac ar ddiwedd pob Cam a Chyfnod byddwn yn cael llawer iawn o adborth gan athrawon o ran pa gynnydd sy'n cael ei wneud.**

Gan fod darllen, ysgrifennu, rhifau a siarad yn hanfodol i fywyd pob dydd, bydd yr athrawon yn rhoi adborth yn ôl i rieni/gofalwyr, i ni ein hunain, ac, wrth gwrs i chi, y dysgwyr, ar sut gynnydd rydych yn ei wneud.

# Y Cyfnod Sylfaen

**Bydd plant bach yn dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a datblygiad Mathemategol yn y ffyrdd newydd a gwell rydym am eu cyflwyno.**

Fodd bynnag, dyma'r cyfnod pan fydd plant nid yn unig yn dechrau yn yr ysgol, ond yn eu bywydau hefyd, felly ar wahân i edrych ar sut maent yn llwyddo yn eu darllen, ysgrifennu, siarad a rhifau, byddwn hefyd yn edrych ar eu cynnydd o ran Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

# Cyfnod Allweddol 2

**Mae'n hynod bwysig bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau gyda geiriau a rhifau tra byddant yn yr ysgol gynradd.** Dyna pam y byddwn yn gofyn i ysgolion ddweud wrthym faint o gynnydd rydych yn ei wneud o ran llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

Er mwyn helpu athrawon i wneud hyn, rydym yn ystyried gofyn i ddysgwyr ymgymryd â thasgau arbennig o'r enw tasgau 'dysgu cyfoethog'. Bydd y rhain yn dangos i ddysgwyr sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, ar draws ystod eang o bynciau.

# Cyfnod Allweddol 3

**Mae llythrennedd a rhifedd yn bwysig iawn o hyd yn yr ysgol uwchradd.** Dyna pam y byddwn yn gofyn i ysgolion ddweud wrthym o hyd am sut rydych yn gwneud cynnydd gyda llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Byddant hefyd yn adrodd i ni am ba gynnydd rydych yn ei wneud o ran Cymraeg fel Ail Iaith a Gwyddoniaeth, oherwydd ein bod yn teimlo bod hwn yn faes hynod bwysig i ddysgu amdano, yn enwedig yn ystod y cam addysg hwn. Ni fydd bellach yn angenrheidiol i ddarganfyddiadau ar unrhyw bynciau eraill gael eu hadrodd yn ôl i ni.

Bydd adroddiad am eich cynnydd hefyd yn mynd at rieni/gofalwyr, ac atoch chi, y dysgwr. Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn derbyn adroddiad am bob pwnc y Cwricwlwm a fydd yn rhoi gwybod iddynt am eich cynnydd ym mhob maes.

# Barn dysgwyr a phryd y bydd popeth yn digwydd

**Mae'r cyfnod ymgynghori, sef pryd mae angen yr holl farnau arnom, gan gynnwys rhai'r dysgwyr, yn dechrau ar 22 Hydref ac yn parhau tan 17 Ionawr 2014.**

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn i'r cwricwlwm ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2014. Nid oes rhaid i ysgolion ddechrau ei addysgu bryd hynny, ond cânt wneud os hoffent.

Mae'n rhaid i bob ysgol addysgu'r Cwricwlwm newydd ym mis Medi 2015.

Gadewch i ni wybod eich meddyliau amdano gan gymryd ychydig o amser i gwblhau'r holiadur.



**WG20159**
**Dyddiad dosbarthu:** Hydref 2013
**Hawlfraint y Goron 2013**